Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn y Neuadd Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Zoom ar **12 Chwefror 2024** yn syth ar ôl cyfarfod y Cyngor.

**YN BRESENNOL:-** Cyng. Medwyn Hughes (Cadeirydd), Cyng. Steve Bell, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. John Wyn Jones, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Delyth Russell, Cyng. L. Toth, Cyng. John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Llinos F. Jones, (Dirprwy Gyfarwyddwr Dinesig).

**124/23 YMDDIHEURIADAU:** Ei Theilyngdod y Maer y Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Meic Pattison.

**125/23 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL.**
Dim

**126/23 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD.**
Dim

**127/23 TRAFOD COFNOD GWEITHREDU ASEDAU:**
Roedd y Cofnod Gweithredu Asedau wedi'i ddosbarthu ymlaen llaw i'r Aelodau.

**i) Rheoli'r Pier**

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod trafodaeth wedi dechrau gyda rhanddeiliaid posibl ynghylch rheolaeth y Pier a'r ardal gyfagos yn y dyfodol ond bod angen trafodaethau pellach. Trefnwyd cyfarfod gyda rhanddeiliaid dros yr wythnos i ddod. Hysbyswyd y Pwyllgor y byddai'n anodd paratoi adroddiad hyfywedd ariannol hyd nes y byddai strwythur ar gyfer rheoli'r Pier yn y dyfodol wedi'i gytuno, er bod adroddiad drafft eisoes wedi'i baratoi.

**Penderfynwyd:**

a) parhau i archwilio opsiynau ar gyfer rheoli'r Pier.

**ii) Tŷ'r Pierfeistr**

Yn unol â phenderfyniadau'r cyfarfod Asedau diwethaf, lle'r oedd y posibilrwydd o werthu tŷ'r PierFesitr wedi'i ddileu, gofynnwyd am adroddiad ar fanteision ariannol posibl gosod y tŷ yn y tymor hir a'r tymor byr. Roedd adroddiad ar yr elw posibl wedi'i gylchredeg ymlaen llaw. Trafododd y Pwyllgor effaith yr argyfwng tai a'r argyfwng costau byw a sut y byddai'r penderfyniad ar ddyfodol Tŷ'r Pierfeistr yn effeithio ar y rhain.

**Penderfynwyd:**

a) Gosod y tŷ i deulu lleol unwaith roedd y tŷ i fyny i'r safon ofynnol.

**iii) Y Rhwystr**

Dywedwyd bod y rhwystr bellach wedi'i symud

**iv) To'r Wylfa**

Bydd To’r Wylfa yn cael ei adleoli i ben draw’r Pier ar ôl cwblhau'r wylfa newydd. Disgwylir i hyn gael ei wneud erbyn diwedd mis Chwefror.

**v) Y Portacabins**

Adroddwyd bod oedi wedi bod gyda symud y Portacabins oherwydd bod y perchennog angen caniatâd i'w lleoli. Er mwyn gwella'r ardal hyd nes y derbynnir y caniatâd hwn bwriedir symud y portacabin uchaf i iard y Gweithdy pan fyddai'r craen ar y safle ar gyfer symud to’r wylfa.

**PENDERFYNWYD** : bod y cabanau hyn yn cael eu symud oddi ar y safle cyn gynted â phosibl, yn ddelfrydol erbyn diwedd Chwefror ond ddim hwyrach na dechrau gwyliau'r Pasg.

**vi) Gweithdy**

Adroddwyd bod gwaith wedi dechrau ar ddidoli cynnwys y gweithdy, cael gwared ar eitemau diangen a gwneud lle i gynnwys un o'r cynwysyddion. Roedd y prosiect hwn yn cymryd llawer o amser o ystyried bod angen parhau â dyletswyddau rheolaidd.

**vii) Gerddi Garth a Thoiledau Ffordd Garth**

Adroddwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r asedau hyn a bod yr adrannau sy'n eu rheoli wedi cytuno i drosglwyddo asedau. Roedd y mater bellach wedi yn nwylo adran gyfreithiol Cyngor Gwynedd, a oedd eisoes wedi cysylltu ar y pwnc.

**128/23 OPSIYNAU MEINCIAU CYHOEDDUS AR Y STRYD FAWR.**

Fel rhan o waith Trawsnewid Trefi i uwchraddio'r Stryd Fawr, mae dodrefn stryd newydd i'w prynu, a fydd yn safoni parth cyhoeddus Bangor. Mae angen cytuno ar ddyluniad y dodrefn hwn rhwng Cyngor Gwynedd, Bangor yn Gyntaf a Chyngor Dinas Bangor. Trafodwyd opsiynau amrywiol.

**PENDERFYNWYD:** dirprwyo cyfrifoldeb am orffen dyluniad y meinciau a'r dysglau blodau i Gyfarwyddwr y Ddinas, ar y cyd â Chyngor Gwynedd a Bangor yn Gyntaf.

**129/23 TRAFOD STRATEGAETH PARC CHWARAE AR GYFER 2024 - 2025**

Trafodwyd strategaeth Parciau a Meysydd Chwarae y Cyngor ar gyfer 2024 – 2025. Yn dilyn trafodaeth fer:

**PENDERFYNWYD:** cadw at y strategaeth a gytunwyd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023 - 2024, sef paentio'r offer ar draws y meysydd chwarae ac yna uwchraddio'r parciau a'r meysydd chwarae o'r gorllewin i'r dwyrain ar draws y Ddinas.

**130/23 CAFFAEL TIR**

Trafodwyd y potensial ar gyfer caffael tir, yn enwedig y tir rhwng Ffordd Sackville a Ffordd Deiniol, yn ogystal â Gerddi Garth. Ystyriwyd y byddai cyfleoedd pellach i brynu tir o amgylch y Ddinas yn codi dros y misoedd nesaf yn sgil y cyfyngiadau ariannol sy'n wynebu Cyngor Gwynedd.

**PENDERFYNWYD:** parhau i brynu tir lle'r oedd hynny’n cael ei ystyried yn fuddiol i'r Ddinas.

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.45 p.m**

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR